# Bwletin y Farchnad HCC

Chwefror 2023

> Ar ôl i CThEF ryddhau ffigurau masnach mis Rhagfyr, gallwn nawr edrych yn fwy manwl ar batrymau masnach yn ystod 2022 a sut y gallai'r rhain fod wedi effeithio ar y sector cig coch.
>
> Glesni Phillips – Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes

**Mae ffigurau CThEF yn awgrymu bod llwythi werth cyfanswm o £1.8 biliwn yn 2022 – cynnydd sylweddol o 22% o'i gymharu â'r flwyddyn. Y cynnydd o 46% yng ngwerth allforion cig eidion oedd y prif sbardun y tu ôl i hyn.**

## CIG EIDION A CHIG LLO

Mae ffigurau CThEF wedi dangos bod cyfanswm y cig eidion a chig llo a **allforiwyd** o'r DU yn ystod 2022 wedi cynyddu 17% ar y flwyddyn, tra bod gwerth yr allforion hyn wedi cofnodi cynnydd sylweddol o 46% i £640 miliwn oherwydd bod prisiau gwartheg ar y farchnad wedi bod yn gryf. Cefnogwyd y cynnydd hwn gan gynnydd o 2% o flwyddyn i flwyddyn yng nghynhyrchiant cig eidion yn y DU, ynghyd â'r adferiad yn y fasnach gyda'r UE wrth i'r cyflenwad ar y farchnad fyd-eang barhau i fod yn dynn. Roedd cyfanswm cyfaint y cig eidion ffres ac wedi'i rewi a allforiwyd i fyny 20% i 123,700 tunnell, gyda Ffrainc yn derbyn 13,600 tunnell ychwanegol. Yn gyffredinol, cynyddodd llwythi i'r UE 40% ar y flwyddyn. Fodd bynnag, gwelodd gwledydd y tu allan i'r UE ostyngiad o 34% yng nghyfaint y cig eidion - yn bennaf oherwydd bod Hong Kong wedi derbyn 4,000 tunnell yn llai yn 2022.


Cyfanswm y cig eidion a chig llo a **fewnforiwyd** i'r DU yn 2022 oedd 302,600 tunnell fetrig – cynnydd bychan o 2% ar y flwyddyn, tra bod cyfaint y cig eidion ffres ac wedi'i rewi a fewnforiwyd mewn gwirionedd wedi gostwng 4% ar y flwyddyn. Gostyngiad nodedig o 11% yng nghyfaint y cig eidion Gwyddelig wnaeth sbarduno'r gostyngiad hwn mewn llwythi ffres ac wedi'u rhewi, er bod nifer y cig eidion o'r Almaen a Gwlad Pwyl yn uwch ar y flwyddyn.

## CIG DEFAID

Cafodd cyfanswm o 78,800 tunnell o gig defaid ei **allforio** o'r DU yn ystod 2022, gyda gwerth yr allforion hyn yn £503.5 miliwn. O'i gymharu â lefelau blwyddyn ynghynt, roedd cyfanswm y cyfaint wedi cynyddu bron 8% (neu 5,700 tunnell), tra cynyddodd y gwerth o 13%. Cynyddodd llwythi cig defaid ffres ac wedi'i rewi o 8% ar y flwyddyn i 75,300 tunnell, gyda dros 90% o'r cyfaint hwn ar gyfer gwledydd o fewn yr UE. Roedd y cynnydd o 8% mewn allforion y tu allan i'r DU yn debygol o gael ei gefnogi gan y cynnydd o 3% mewn cynhyrchiant cig defaid ar y farchnad ddomestig Cafodd yr UE 5,800 tunnell ychwanegol wrth i lwythi gynyddu i Iwerddon. Mae Ffrainc yn parhau i fod y brif gyrchfan, ac roedd yn cyfrif am 47% o gyfanswm y llwythi yn nhermau cyfaint. Er bod allforion i wledydd y tu allan i'r UE wedi gostwng 8%, gwelwyd bod y cyfaint a anfonwyd i'r Dwyrain Canol yn fwy na threblu ac roeddent werth bron i £10 miliwn yn ystod 2022.

Cofnododd **mewnforion** cig defaid yn y DU gynnydd nodedig yn ystod 2022 - cynnydd 21% - i gyfanswm o 63,800 tunnell fetrig. Roedd mewnforion cig defaid ffres ac wedi'i rewi wedi cynyddu'n sylweddol ar y flwyddyn (17%), gyda chyfaint o gig oen Gwyddelig yn sbarduno'r cynnydd hwn. Roedd llwythi o Seland Newydd (NZ) hefyd yn uwch na'r lefelau blwyddyn ynghynt 3% - ond roedd cyfeintiau o gynnyrch wedi'i rewi a dderbyniwyd gan NZ yn sylweddol uwch ar y flwyddyn ac yn cyfrif am 86% o'r cyfanswm a dderbyniwyd gan NZ, tra bod y DU yn derbyn llawer llai o gig oen NZ ffres. Yn ystod misoedd Medi hyd at fis Tachwedd, cofnodwyd lefelau anarferol o uchel o gynnyrch NZ wedi'i rewi yn dod i mewn i'r DU, ac mae'n debyg bod hyn wedi chwarae rhan wrth roi pwysau ar brisiau cig oen domestig ac achosi natur anwadal o fewn y farchnad.

**Cyfran o Chig Oen Seland Newydd a Fewnforiwyd i'r DU (o ran cyfaint)**




*Ffynhonnell: CThEF*

## CIG MOCH

Yn ystod 2022, cynyddodd cyfanswm gwerth y cig moch a **allforiwyd** o'r DU o 10% o'i gymharu â'r flwyddyn £623.2 miliwn, tra bod cyfanswm y cyfaint wedi codi 7% i 372,600 tunnell fetrig. O edrych ar y categori ffres/wedi rhewi; roedd y cyfaint wedi gostwng 2% ar y flwyddyn i 189,350 tunnell tra bod gwerth hefyd wedi gostwng 2%. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, anfonwyd mwy o gyfeintiau i Asia yn dilyn yr achosion o dwymyn Affricanaidd y Moch (ASF), fodd bynnag, mae patrymau'n dychwelyd i lefelau mwy arferol wrth i'r fuches foch Tsieineaidd barhau i orchuddio gyda'r lefelau a anfonwyd i Tsieina yn 2022 yn gostwng 30% ar y flwyddyn. O ran **mewnforion**, cyfanswm y cig moch a fewnforiwyd i'r DU yn ystod y flwyddyn oedd 801,500 tunnell – cynnydd o 9% o'i gymharu â 2021. Er bod y categori ffres ac wedi'i rewi wedi parhau'n gymharol sefydlog ar y flwyddyn, gwelwyd cynnydd nodedig mewn mewnforion cig moch a selsig. Denmarc a'r Almaen oedd ein prif gyflenwyr o hyd o ran cig moch ffres/wedi'i rewi, er bod y ddau wedi cofnodi cwymp ar y flwyddyn yn nhermau cyfaint.

# Crynodeb Misol y Farchnad

## GWARTHEG

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 18 Chwefror


Y pris cyfartalog am wartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr edd **268.2p/kg.** Roedd hyn:

- + 2.9c ar yr wythnos flaenorol,
- + 33.3c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 74/6c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 193.6c/kg).

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **472.6c/kg**. Roedd hyn:

- +4.4c ar yr wythnos flaenorol,
- 68.7c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd prisiau pwysau marw heffrod yn sefyll ar 470.9c/kg (+5.8c ar yr wythnos), teirw ifanc ar 450.5c/kg (+2.8c), a gwartheg difa ar 369.8c/kg (+4.1c).





### Trwybwn - Ionawr 2023

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 227,700 pen – cynnydd o 7% ar y flwyddyn
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 161,500 pen - i fyny 6% ar y flwyddyn.
  ➢ bustych +5%, heffrod +10%, a theirw ifanc -4%.
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 342.3kg (-7.0kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 58,400 pen - cynnydd o 8% ar y flwyddyn.

**Cynhyrchiant Cig Eidion a Chig Llo y DU**
Ionawr '23

74,300 tunnell
**+5% b-a-f**



## DEFAID

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 18 Chwefror


Pwysau byw cyfartalog ŵyn dethol SQQ mewn marchnadoedd arwerthu yng Nghymru oedd **228.4c/kg.** Roedd hyn:

- - 7.3c ar yr wythnos flaenorol,
- -33.7c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 4.6c islaw'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 233.1c/kg).

Prisiau mamogiaid difa cyfartalog mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **£64.70/pen.** Roedd hyn:

- + £2.70 ar yr wythnos flaenorol,
- £14.70 o dan lefelau blwyddyn yn gynharach.

Prisiau ŵyn pwysau marw Prydain fawr ar gyfartaledd oedd 511.3c/kg (+14.4c ar yr wythnos).




*Prisiau hen dymor/tymor newydd cyfunol hyd at 3ydd wythnos mis Mai, prisiau tymor newydd yn unig tan Ragfyr*

### Trwybwn - Ionawr 2023

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.0 miliwn pen – cynnydd o 4% ar y flwyddyn.
- Trwybwn cig oen = 941,300 pen – cynnydd o 3% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas cig oen cyfartalog = 20.1kg (-0.6kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 105,000 pen – cynnydd o 11% ar y flwyddyn.

**Cynhyrchiant Cig Defaid y DU**
Ionawr '23

21.400 tunnell
**+0.5% b-a-f**




## MOCH

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 11 Chwefror

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn sefyll ar **208.8c/kg.** Roedd hyn:

- - 0.9c ar yr wythnos flaenorol,
- + 65.3c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 59.9c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 149.2c/kg).




### Trwybwn - Ionawr 2023

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 882,000 pen – gostyngiad o 2% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 863,700 pen – i lawr 1% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 88.9kg (-5.4kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 18,300 pen – i lawr 20% ar y flwyddyn.

**Cynhyrchiant Porc y DU**
Ionawr '23

79,400 tunnell
**-7% b-a-f**

